# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2022 (drwy gyfrwng Zoom)

**Yn bresennol:** Jessica Laimann, Kat Watkins, Leandra Craine, Louise Sweeney, Mark Isherwood MS (Chair), Miranda Evans, Owen Williams, Lee Parsons, Petra Kennady, Rhian Davies, Sam Williams, Tracy Brockwell, Trevor Palmer, Alix Roberts, Marg McNiel, Altaf Hussain MS, Amanda Say, Becky Ricketts, Cary Jones, Debbie Shaffer, Dee Montague, Gareth Marshall, George Lockett

**Ymddiheuriadau:** Peredur Owen Griffiths AS, Rebecca Phillips, Andrea Gordon, Maggie Hayes, Jenny Carroll, Bill Fawcett, Ben Cottam

**1. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

**Cynigiwyd gan**: Marg McNeil
**Eiliwyd gan**: Amanda Say

**2. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol**

**Seeing around Britain**

Cyfarfu Megan â chydweithwyr o See Around Britain er mwyn trafod rhai o'r camau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf. Cytunwyd y dylid rhoi cyfle i See Around Britain  gysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau a rhwydweithiau defnyddiol er mwyn helpu'r corff i ledaenu ei neges a chynyddu'r gefnogaeth ar ei gyfer.

Dywedodd MI ei fod, yn dilyn cyfarfod gyda Thywysog Cymru, wedi codi ap Seeing Around Britain, a bod y Tywysog wedi cytuno y gallai Mark anfon llythyr at ei swyddfa breifat i'w ystyried.

**3. Cyflwyniad – Cyngor ar Bopeth (Alex Roberts)**

Alex yw'r rheolwr budd-daliadau lles yn Sir Ddinbych. Rhoddodd Alex drosolwg o'r cymorth a ddarperir gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych mewn perthynas â budd-daliadau lles.

Ers COVID-19, mae ffyrdd o weithio Cyngor ar Bopeth wedi newid. Mae'r rhan fwyaf o apwyntiadau'n cael eu cynnal dros y ffôn neu drwy gyfrwng

fideo, gyda rhai ymweliadau cartref yn cael eu cynnal, os oes angen. Mae pob apwyntiad yn cael ei gynnal drwy apwyntiad yn unig.

Er mwyn cael mynediad at y gwasanaeth, gall cleientiaid atgyfeirio eu hunain, neu gallant gael eu hatgyfeirio gan randdeiliaid fel partneriaid, meddygon teulu, cynghorau neu elusennau. Ar yr adeg honno, byddant yn destun proses frysbennu.

Dywedodd Alex wrth y grŵp fod yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn wynebu ôl-groniad aruthrol. Roedd cais ar gyfer Taliad Annibynnol Personol (PIP) yn arfer cymryd tua wyth wythnos i'w gwblhau. Mae'r broses hon bellach yn cymryd misoedd. Yn sgil yr oedi, o fis Rhagfyr 2022, bydd y taliadau ar gyfer y rhai nad ydynt wedi cael eu hail-asesu ar gyfer Taliadau Annibynnol Personol yn cael eu hymestyn am flwyddyn arall.

Pan fydd plentyn sy'n cael y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn cyrraedd 16 oed, bydd gofyn iddo wneud cais am Daliad Annibynnol Personol. Fodd bynnag, mae'r trefniant hwn wedi'i ohirio yn sgil yr ôl-groniad.

Bydd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn cefnogi cleientiaid o'r cais cychwynnol hyd at unrhyw anghydfodau ac apeliadau a allai godi – proses a allai gymryd dwy flynedd.

Yn ddiweddar, dywedodd yr Adran Gwaith a Phensiynau fod y broses orfodol o ailystyried ceisiadau yn cymryd 2-3 wythnos. Fodd bynnag, dywedodd Alex nad yw hyn yn wir, gan nodi bod y broses yn cymryd tua 6 mis.

Mae gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych nifer o gynlluniau cymorth ar waith, megis talebau ar gyfer mesuryddion rhagdalu a chardiau SIM am ddim i bobl sy'n talu wrth fynd.

Mae'r ganolfan wedi cael llawer o geisiadau am gyngor ynghylch dyledion ynni a thanwydd, ac mae ganddi arbenigwyr wrth law i helpu.

**3. Cyfarfod cyffredinol blynyddol**

Cafodd Mark Isherwood AS ei ail-ethol yn gadeirydd y grŵp ar ôl i'w enwebiad gael ei gynnig gan Altaf Hussain AS a'i eilio gan Owen Williams. Cafodd Megan Thomas ei hailethol yn ysgrifennydd, gyda'r enwebiad yn cael ei gynnig gan Becky Ricketts a'i eilio gan Altaf Hussain AS. Ni ddaeth unrhyw enwebiadau eraill i law.

**4. Trafodaeth grŵp am brofiadau sy'n gysylltiedig â'r system fudd-daliadau.**

Dywedodd MI wrth y grŵp fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i gwahodd i'r cyfarfod nesaf, a gofynnodd i'r aelodau am y pynciau yr hoffent eu trafod â’r Adran.

Roedd y pynciau i'w trafod yn cynnwys:

- Agwedd yr Adran Gwaith a Phensiynau tuag at gyflyrau hirdymor – pam ei bod yn parhau i ailasesu pobl bob hyn a hyn o flynyddoedd.
- Mynd i’r afael â sefyllfaoedd pan fo pobl yn gweld eu ceisiadau am fudd-daliadau yn cael eu gwrthod yn gychwynnol, ond yn cael eu cymeradwyo yn dilyn apêl.
- Pobl yn cael eu hasesu gan weithiwr proffesiynol ym maes y cyflwr y mae’r person yn ei ddioddef.
- Cymorth drwy’r cynllun Mynediad i Waith ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n rhan amser.
- Ni ddylai dyfarniadau gael eu lleihau'n awtomatig yn sgil y ffaith bod posibilrwydd y gallai cyflwr y person dan sylw wella.
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau i ystyried y Model Cymdeithasol o Anabledd.
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gwrthod rhoi cyhoeddusrwydd i’r ystadegau ynghylch faint o bobl sydd wedi marw wrth aros am fudd-daliadau anabledd.
- Y Cynllun Bathodyn Glas a thocynnau bws rhatach.
- Cymorth drwy’r cynllun Mynediad i Waith i bobl sy'n ymgymryd â rolau gwirfoddoli.

**5. Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Pobl Anabl – trafodaeth**

Dywedodd MI wrth yr aelodau y byddai Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl yn cael ei gynnal ar 3 Rhagfyr, ac y byddai datganiad yn cael ei wneud yn Siambr y Senedd.

Gofynnodd MI i'r grŵp am eu sylwadau a'u blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y blaenoriaethau a ganlyn ar gyfer y 12 mis nesaf:

- Yr argyfwng costau byw.
- Taliadau uniongyrchol – diffyg defnydd, diffyg cynllun strategol i annog defnydd, a diffyg ymwybyddiaeth.
- Ymrwymiad i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

- Lleisiau plant anabl.

Dywedodd Sam Williams o Anabledd Dysgu Cymru wrth yr aelodau fod y sefydliad yn cefnogi dau berson ifanc anabl o ran eu hymwneud â Senedd Ieuenctid Cymru, a chroesawodd syniadau o ran y materion yr hoffent eu codi.

Dywedodd Rhian wrth y grŵp fod Anabledd Cymru ar hyn o bryd yn cynnal prosiect ar gyfer datblygu adnoddau ynghylch Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau mewn ysgolion. Bydd y prosiect yn cael ei dreialu yn y flwyddyn newydd.

Awgrymwyd hefyd y byddai gweithdrefnau ar gyfer pobl anabl o ran gwacáu mannau cyhoeddus mewn argyfwng yn bwnc defnyddiol i'w drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Tasglu Hawliau Pobl Anabl**

Rhoddodd Rhian y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am Dasglu Llywodraeth Cymru ar Hawliau Pobl Anabl.

Lansiwyd y tasglu gan y Prif Weinidog mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad Drws ar Glo (effaith COVID ar bobl anabl).

Mewn ymateb i'r pandemig, gwnaeth Llywodraethau ym mhobman ddychwelyd at y model meddygol o anabledd.

Mae'r tasglu wedi bod yn weithredol ers blwyddyn. Mae'n cael ei gyd-gadeirio gan Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a'r Athro Debbie Foster o Ysgol Fusnes Caerdydd.

Mae nifer o weithgorau wedi'u sefydlu i graffu ar faterion yn fwy manwl, ac maent yn agored i bobl fynegi diddordeb mewn cymryd rhan. Y syniad yw y bydd cynllun gweithredu ar gyfer hawliau pobl anabl yn cael ei lunio a fydd yn ymgorffori model cymdeithasol o anabledd ar draws Llywodraeth Cymru, gyda chamau gweithredu y gellir eu nodi'n glir.

Awgrymodd Rhian y dylid gwahodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i gyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn cael diweddariadau, ac fel mecanwaith i'r Grŵp Trawsbleidiol ddwyn y Llywodraeth i gyfrif.

Awgrymodd MI hefyd y dylid gwahodd yr Athro Debbie Foster i gyfarfod yn y dyfodol.

**6. Unrhyw fater arall**

Enillodd MI y balot er mwyn ceisio cytundeb i'r egwyddor o gyflwyno Bil Aelod Unigol. Bydd yn cyflwyno Bil i Gymru ynghylch Iaith Arwyddion Prydain.

**7. Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Dydd Iau 16 Chwefror am 15.30, drwy gyfrwng Zoom.

**CAMAU I'W CYMRYD:**

1. Gwahodd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a'r Athro Debbie Foster, i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol.